CYMDEITHAS BOB OWEN

Elusen Gofrestredig Rhif 507948

# Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

**CYMDEITHAS BOB OWEN**
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn
(Awst-Gorffennaf neu
Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon i'r
Trysorydd

**SWYDDOGION**
*Cadeirydd:*
Dr Rhidian Griffiths
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion
*Ysgrifennydd:*
Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174
*Trysorydd:*
Miss Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre, Bow Street
Ceredigion SY24 5AD
(01970) 820235
*Trefnydd Hysbysebion:*
Gwilym Tudur
Siop y Pethe, Aberystwyth
Ceredigion
(01970) 617120
*Golygydd:*
Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
ebost:tanycastell@yahoo.com
(01678) 540652
*Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:*
Y Swyddogion
Dr Bryniey Roberts
Dafydd Jones
Dr R. Geraint Gruffydd
Dr E. Wyn James
Dafydd Glyn Lloyd Hughes M.A.
Rheinallt Llwyd
Huw Ceiriog Jones
Mrs Mair Edwards
Dr Maredudd ap Huw
Deian ap Rhisiart

**Y RHIFYN NESAF**
Erthyglau a mân
hysbysebion i'r **GOLYGYDD**
**ERBYN MEDI 28**

Neilltuo gofod hysbysebu i'r
**TREFNYDD HYSBYSEBION**
**ERBYN MEDI 23**

Copi o'r hysbyseb i'r
**GOLYGYDD**
**ERBYN MEDI 28**

Gwasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
**Argraffwyr a Chyhoeddwyr**
**Ffôn: (01286) 674486**

**Gwasanaeth y Deillion**
Mae'r gymdeithas uchod yn darparu tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn y Casglwr i Danysgrifwyr y Gymdeithas.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Miss Anne K. Till, 01970 820235.**

**Bargeinion**
The Secret Vale of Glamorgan £7.99
(yn lle £13.99)
The Dragon Entertains £8.99
(yn lle £12.99)
The Book of Welsh Saints £17.99
(yn lle £24.99)
100 Great Welshmen £13.99
(yn lle £18.99)
An A-Z of Wales and the Welsh £11.99 (yn lle £14.99)
*Cludiant yn ychwanegol. Cysylltwch â'r golygydd.*

# Golygyddol

Bu cefnogaeth fawr iawn i'r Diwrnod Dathlu, ond yn anffodus bu'n rhaid gwrthod cryn nifer oherwydd yr ymateb anhygoel am lefydd. Roedd hyn yn galondid mawr o weld maint y gefnogaeth sydd i Gymdeithas Bob Owen. Gyda'r wybodaeth hon mewn golwg, mae'n werth mynd i'r drafferth o gynnig danteithion, rwan ac yn y man, i'r aelodau. Unwaith eto, mae trefniadaeth ar y gweill ar gyfer Pabell yn yr Eisteddfod, ac hefyd fe welwch ddau lyfryn raffl eto eleni yn y pecyn. Diolch ichi am eu gwerthu dros y blynyddoedd; mae'r elw yn ein galluogi ni i dalu am uned ar faes yr Eisteddfod, ac hefyd yn cyfrannu ychydig tuag at gost y tudalennau lliw. Rydw i'n ddiolchgar iawn i'r aelodau am gymryd y raffl o ddifrif.

Er mwyn sicrhau dyfodol mwy llewyrchus i'r cylchgrawn, rydym wedi cynnwys 'archeb banc' i bawb unwaith eto. Gobeithio y byddwch yn barod i ystyried ei llenwi hi er rhwyddineb costau. Mae rhai yn talu'n flynyddol, ond mae egni ac amser yn cael ei wario wrth gofnodi pwy sy'n talu â siec blynyddol, a phwy sy'n talu ag arian parod; mae rhai, hefyd, yn talu drwy archeb banc ar yr hen danysgrifiad. Mi fyddwn wrth fy modd pe byddai pawb yn edrych ar eu tanysgrifiad a llenwi'r archeb banc, os oes angen – ni chymer ond ychydig funudau o'ch amser – a'u dychwelyd at y Trysorydd. Credwch chi fi, mi fyddai hyn o les mawr i goffrau'r Gymdeithas.

Mae'r Cinio Dathlu wedi dangos hefyd ble mae trwch yr aelodau, a daw'r cymunedau Cymraeg i'r amlwg fel prif gefnogwyr y Gymdeithas. Dyma gyfle i aelodau ddod at ei gilydd i sefydlu celloedd o'r Gymdeithas yn eu cymuned, a llunio rhaglenni ac ennill aelodau newydd yn eu sgîl. Gellir datblygu hanes lleol a gwahodd casglwyr ac arbenigwyr sy'n prisio hen bethau i annerch, er enghraifft.

Ymgyrch arall sy'n apelio ataf yn fawr iawn yw codi cylchrediad *Y Casglwr*. Beth am imi roi nod o ennill 200 o aelodau newydd mewn dwy flynedd? A ydy hyn yn bosibl? Rwyf am hysbysebu yn y papurau bro i weld pa ymateb fydd yna, a chyda'ch cymorth chi yn y gwahanol ardaloedd, rwy'n siwr y gellir gwireddu hyn yn hawdd.

Mwynhewch fisoedd yr haf. Gobeithiaf gyfarfod rhai cannoedd ohonoch eto ar faes yr Eisteddfod am sgwrs ac am fwy o syniadau.

**Gerald Morgan** yn trafod

# Llyfrau Gwerinwr yn 1856

Y cyfan a wn i am Morris Pugh yw'r hyn a geir yn ei ewyllys (LlGC B/1856/169). Roedd yn byw ym Maescaled, Dolgellau, yn Annibynnwr o ran ei ffydd ac yn llifiwr wrth ei waith; bu farw yn 1856. Mae'n amlwg ei fod yn ddyn diwylliedig, yn hyddysg yn Gymraeg a Saesneg, ac y mae ei ewyllys Gymraeg yn rhestru'r llyfrau oedd ganddo. Anaml y byddai pobl yn enwi mwy na'r Beibl yn eu hewyllysiau, ond eithriad oedd Morris Pugh. Diddorol hefyd yw gweld i bwy y rhoddai ei drysorau (myfi sydd wedi eu rhifo), oherwydd mae'n amlwg ei fod yn hen lanc, ac felly heb fod yn atebol i weddw na phlant. Câi wario ei arian yn ôl ei ddileit, a gadael ei lyfrgell fechan rhwng ei gyfeillion:

1. Ceinion Cerddorol, i Eglwys yr Annibynwyr yn Nolgellau
2. Fy Mibl Darluniadol i Mary Williams
3. y Gyfrol 1[af] o'r Gwyddoniadur i John Williams, Turner, – yn nghyda'm Caniadau Seion; Cydymaith Cantorion; a Daearyddiaeth Josiah Thomas Jones, i'r dywededig John Williams, Turner
4. Hanes Cymry i Ellinor Williams
5. a Watts' Scripture History i Margarett Williams (sef dwy Ferch y dywededig John Williams, Turner)
6. Fy Arweinydd Cerddorol; a'm Cerddor Cenedlaethol i Owen Thomas, Turner
7. Calcott's Grammar of Music, C[r]eation, an Oratorio, By Joseph Haydn, yn nghyda'm Gramadeg Cerddorol, gan David Roberts, i Lewis Jones, Miller, Dolgellau
8. Chambers Information i William Jones, Carver, Maescaled
9. The People's Biographical Dictionary i David Owen, Printer
10. Defodau'r Iuddewon i Hugh Jones, Llifiwr.
11. Pryddest Ieuan Glan Geirionydd ar yr Adgyfodiad &c i Hugh Jones, Turner
12. Amrywiaeth i John Pugh, Crydd, Dolgellau
13. yr wyf yn trefnu ac yn penodi y Gweddill o'm Llyfrau i Lewis Humphreys, Egwyddorwas gyda John Jones, Liverpool House, yn bresenol, – Plwyf Dolgellau, swydd Feirion.

Tybed beth oedd gweddill ei lyfrau? Fe welir wrth y rhestr fod Morris yn ddyn o ddiddordebau eang – diwinyddiaeth, barddoniaeth, hanes, gwybodaeth cyffredinol, daearyddiaeth, natur a cherddoriaeth. Dyma gasgliad nodweddiadol o oes hunan-wellhad a dylanwad Samuel Smiles.

Heblaw ei lyfrau, roedd ganddo ddigon o gelc i fedru rhannu arian ymhlith ei ffrindiau – merched yn bennaf, fel mae'n digwydd. Cawsai pedair o ferched £19 rhyngddynt, ond aeth ei oriawr a phunt i'w ffrind Richard Humphreys, turniwr coed yng Nghorwen, a rhoes bedair punt i Lewis Humphreys, 'egwyddorwas' (sef prentis) yn Liverpool House, Dolgellau. Turniwr arall, John Williams, oedd i weinyddu ei ewyllys. Crefftwyr hefyd oedd y tystion i'r ewyllys, sef William Griffith, argraffydd, ac Owen Jones, saer. Yn olaf, rhoes y cyfan o'i ddillad i Rhys Jones, Minffordd, Dolgellau, heblaw ei got uchaf, a aeth i gymydog ym Maescaled.

Ond tybed beth ddigwyddodd i'r gweddill o'i eiddo, oherwydd cofnodwyd wedi ei farw fod ganddo hanner cant o bunnoedd – swm teilwng iawn, ac yn dystiolaeth arall i fanteision ei gyflwr dibriod!